# Lluniaeth alcoholaidd

21 Tachwedd 2013

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 28 Hydref, pan wnaethoch ofyn,

*A fyddech cystal â datgelu faint o arian a wariwyd ar luniaeth alcoholaidd i Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol a'i staff ym mis Medi 2013.*

*Hefyd, a fyddech cystal â nodi faint a wariwyd, wedi'i ddadansoddi yn ôl y math o ddiod: gwin (ac eithrio siampaen); siampaen, cwrw, gwirodydd.*

Ni wariwyd unrhyw arian yn ystod mis Medi 2013 gan Aelodau'r Cynulliad a Staff Comisiwn y Cynulliad ar luniaeth alcoholaidd.

Caiff digwyddiadau ar ystâd y Cynulliad (Tŷ Hywel, y Senedd neu'r Pierhead) eu noddi gan Aelodau'r Cynulliad a thelir am unrhyw letygarwch fel rheol gan y sefydliadau allanol ac nid gan Gomisiwn y Cynulliad.

Nid oes gan Aelodau'r Cynulliad na staff Comisiwn y Cynulliad hawl i wneud cais a chael ad-daliad am ddiodydd alcoholaidd o dan y polisïau Cynhaliaeth.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8635
E-bost/Email:Buddug.Saer@wales.gov.uk

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**